

## Beth ddylwn i wneud os oes gen i bryderon am benderfyniad neu broses yr Archwilydd Meddygol?

Os ydych chi'n anghytuno â chasgliad yr Archwilydd Meddygol, fe'ch anogir i roi gwybod i'r swyddog sy'n cysylltu â chi. Bydd yn gwrando ar eich pryderon ac yn gallu trefnu ail apwyntiad adolygu annibynnol gan Archwilydd Meddygol gwahanol. Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar y canlyniad, gall y gwasanaeth gyfeirio'r achos at y crwner i gael ystyriaeth annibynnol arall.

Os oes gennych gŵyn neu ganmoliaeth am y gwasanaeth, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth ar medicalexaminerservice@wales.nhs.uk a byddant yn ymateb i chi ymhen 30 diwrnod.

## Cysylltu â'r Gwasanaeth

Gallwch e-bostio gwasanaeth Archwilio Meddygol yn eich ardal neu ofyn i'r gwasanaethau profedigaeth gysylltu â'r tîm ar eich rhan yn uniongyrchol. Efallai y bydd angen i'r tîm Archwilio Meddygol eich trosglwyddo i adran arall os ydynt yn teimlo y byddai'n well ymdrin â'ch pryderon trwy sianel arall.

## Swyddfa Gogledd Cymru

Safleoedd cymunedol, meddygon teulu ac ysbytai yn Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gan gynnwys Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam)

E-bost: NorthWales.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

Ffon: 02921 500699

## Swyddfa Canolbarth a Gorllewin Cymru

Safleoedd cymunedol, meddygon teulu ac ysbytai yn Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gan gynnwys Ysbyty Treforys, Ysbyty Singleton, Ysbyty Bronglais, Ysbyty Llwynhelyg, Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac Ysbyty Tywysog Philip)

E-bost:
MidandWestWales.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

Ffon: 02921 500499

## Swyddfa Canol De Cymru

Safleoedd cymunedol, meddygon teulu ac ysbytai yn Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (gan gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru)

E-bost:
SouthWalesCentral.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

Ffon: 02921 500599

## Swyddfa Canol De Cymru

Sa leoedd cymunedol, meddygon teulu ac ysbytai yn Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (gan gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru)

E-BostSouthWalesEast.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

Ffon: 02921 500799

# Gwasanaeth Archwilio Meddygol Cymru

*Gwybodaeth i'r rhai mewn profedigaeth*

GIG CYMRU NHS WALES
Gwasanaeth Archwilio Meddygol y Bartneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership Medical Examiner Service

## Beth yw’r Gwasanaeth Archwilio Meddygol?

Bydd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn craffu ar bob marwolaeth ar draws ardaloedd lleol nad yw’n gofyn am ymchwiliad crwner. Mae Archwilwyr Meddygol, sydd hefyd yn uwch feddygon, yn darparu adolygiad annibynnol o'r gofal a roddwyd i'r ymadawedig ac yn gallu helpu i nodi unrhyw sefyllfaoedd lle gallai sefydliadau gofal ddysgu. Maent yn rhoi cyfle i'r rhai mewn profedigaeth ofyn cwestiynau, ceisio eglurhad neu godi pryderon ynghylch y gofal a gafwyd gan eu hanwylyd. Maent hefyd yn sicrhau bod y Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth yn cael ei chwblhau mor gywir â phosibl. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn darparu adolygiad meddygol annibynnol o ofal ac, fel rhan o'r broses hon, mae'n gwerthfawrogi eich meddyliau, eich sylwadau neu'ch pryderon. Rydym am sicrhau eich bod chi'n cael y cyfle i gael trafodaeth agored a gonest am unrhyw beth sydd wedi eich poeni gyda rhywun sy'n deall, ond sy'n annibynnol ar y gofal a gafwyd gan eich anwylyd. Rydym yma i wrando ar eich cwestiynau a’ch pryderon, i roi atebion a sicrwydd os yn bosibl, a lle bo angen, i drosglwyddo unrhyw bryderon i’w hymchwilio ymhellach.



## A fydd hyn yn oedi fy nghynlluniau angladd?

Ni ddylai fod oedi i unrhyw gynlluniau angladd rydych chi wedi'u gwneud. Nod y gwasanaeth yw atal oedi a gweithio gyda chi i sicrhau y gellir cyflawni unrhyw gynlluniau angladd pan fydd angen. Bydd Archwilwyr Meddygol a Swyddogion Archwilio Meddygol yn ceisio bod yn hyblyg, er enghraifft, os yw’r perthnasau’n dymuno i'r corff gael ei ryddhau'n gyflym, byddant yn gweithio i gyflawni'r ceisiadau hyn cymaint â phosibl. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn eich hysbysu pryd y bydd y Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth yn cael ei hanfon i'r Swyddfa Gofrestru (bydd angen i chi gofrestru'r farwolaeth o fewn 5 diwrnod o dderbyn y Dystysgrif), ond gallwch barhau i drefnu apwyntiadau gyda threfnwyr angladdau'r adeg hon.

## A allaf i ofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol siarad â rhywun arall os yw'n ormod i mi siarad â nhw?

Gallwch, wrth gwrs. Efallai y bydd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn cysylltu â chi i ofyn â phwy yr hoffech i ni siarad yn lle hynny, neu gallwch hysbysu’r tîm meddygol neu staff y swyddfa profedigaeth os byddai’n well gennych i ni ddefnyddio rhywun arall fel pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn deall bod hwn yn gyfnod anodd iawn. Bydd yn gwneud ei orau i'w wneud y broses mor hawdd â phosibl i chi.

## Beth os nad wyf am i gofnodion meddygol fy anwylyd gael eu hadolygu?

Mae gan y Gwasanaeth Archwilio Meddygol ddyletswydd statudol i adolygu pob marwolaeth na chyfeirir yn uniongyrchol at y Crwner. Felly, mae'n rhaid iddynt graffu'n gymesur ar gofnodion meddygol yr ymadawedig.

## Beth fydd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn ei ofyn i mi?

yddant yn rhoi gwybod ichi beth sydd wedi'i ysgrifennu ar y Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth i wirio a oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon amdani. Byddant hefyd yn trafod adolygiad yr Archwilydd Meddygol ac yn gofyn a oes gennych unrhyw bryderon, sylwadau neu gwestiynau am y gofal a dderbyniwyd, neu am y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth eich anwylyd. Dyma gyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau yr ydych yn dymuno am y farwolaeth a chodi unrhyw beth sydd wedi eich poeni mewn unrhyw ffordd.

## Beth os nad wyf am ddweud wrth y Gwasanaeth Archwilio Meddygol am fy mhryderon?

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn darparu barn annibynnol. Fe'ch anogir i siarad â nhw, yn enwedig os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch marwolaeth neu ofal eich anwylyd. Rydym yma i wrando ac i sicrhau bod unrhyw faterion gofal yn cael eu codi gyda'r sefydliad gofal iechyd perthnasol neu'r bobl a oedd yn gyfrifol am ofal y sawl a fu farw. Fel arall, bydd y gwasanaeth Archwilio Meddygol yn cyfeirio'r materion at rywun a all ymchwilio ymhellach. Mae’r gwasanaeth Archwilio Meddygol yn annibynnol o’r darparwr gofal a gafodd eich anwylyd, a thrwy ddweud wrthynt am eich pryderon neu arsylwadau, efallai y byddwch yn helpu i wella’r gofal a’r gwasanaethau y mae’r GIG yn eu darparu i gleifion a gofalwyr eraill yn y dyfodol.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn codi Pryderon?
Mae’r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yma i wrando ar eich pryderon, i ateb unrhyw gwestiynau ac, os oes angen, i gysylltu â rhywun a all ymchwilio iddynt ymhellach. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn darparu barn annibynnol a bydd yn trosglwyddo pryderon lle bo'n briodol. Ni fydd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn ymchwilio ymhellach ei hunain, gan y gallai hon fod yn broses gymhleth, ac mae'n rhaid i'r Archwiliwr Meddygol gwblhau craffu mewn modd amserol er mwyn caniatáu i'r farwolaeth gael ei chofrestru yn ôl y gyfraith.